Dyddiad derbyn:

Teachers' Pensions

# Cais am ymddeoliad: Budd-daliadau Wedi Eu Haddasu ar Sail Tybiaethau Actwaraidd

**Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio pan fyddwch yn hawlio budd-daliadau cyn Oedran Pensiwn Arferol heblaw am fudd-daliadau ar ôl Ymddeol Gwasanaeth Graddol, Cynamserol neu Ychwanegol .**
I gael mwy o wybodaeth am eich Oedran Pensiwn Arferol cyfeiriwch at www.teacherspensions.co.uk/npa.
Cwblhewch y ffurflen hon gan ddefnyddio inc du a PHRIF LYTHRENNAU.

## Rhan A: I'w gwblhau gan yr ymgeisydd ym mhob achos. Cyfeiriwch at 'Sut i gwblhau'r Ffurflen Gais' i gael help i gwblhau Rhan A.

**Nodiadau:**

- Dylech ddarllen yr adran 'Sut i gwblhau'r Ffurflen Gais' cyn cwblhau'r ffurflen hon.
- Dylech sicrhau eich bod yn llenwi POB adran a chwestiwn yn y ffurflen (oni bai y nodir yn wahanol). Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen gall hyn olygu oedi wrth brosesu eich cais, ac i daliad dilynol budd-daliadau ymddeol, tra ein bod yn cael y wybodaeth berthnasol.
- Unwaith i chi gwblhau'r ffurflen gall fod yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at y Rhestr Wirio i Aelodau cyn i chi anfon eich cais atom.
- Gall fod yn ddefnyddiol i chi fynd i'n canolfan ymddeol ar www.teacherspensions.co.uk/planningforretirement i gael mwy o wybodaeth am eich budd-daliadau a sut i wneud cais amdanynt.

Archif

### Adran 1: Manylion Personol

1. **Rhif cyfeirnod athro/athrawes** (enghraifft 99/99999)
   _ _ / _ _ _ _ _
2. **Cyfenw** (un llythyren i bob bocs)
3. **Cyfenw blaenorol** (os oes un)
4. **Enw cyntaf**
5. **Teitl** (ticiwch, neu nodwch os arall)
   Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall ☐
6. **Dyddiad geni**
   D D M M B B B B
7. **Rhif Yswiriant Gwladol**
8. **Cyfeiriad cyswllt**
   Cod post
9. **Rhif ffôn cartref** (gan gynnwys cod STD)
10. **Rhif ffôn symudol**
11. **Cyfeiriad e-bost personol ar gyfer pob gohebiaeth yn ydyfodol**
    (Byddwn yn anfon manylion eich budd-daliadau i'ch cyfeiriad e-bost)
12. **Dyddiad olaf cyflogaeth addysgu**
    (Eich diwrnod terfynol o gyflogaeth am dâl)
    D D M M B B B B

*(parhad drosodd)*

**Rhan A: I'w gwblhau gan yr ymgeisydd ym mhob achos** *(parhad).*

**Adran 2: Manylion tâl**

Telir eich budd-daliadau i mewn i'r cyfrif a enwebir gennych isod. Noder y byddwn yn gallu gwneud taliadau'n unig i gyfrif neu gyfrif ar y cyd sydd yn eich enw.

**Ydych chi'n dymuno i'ch budd-daliadau gael eu talu i gyfrif banc y DU?**

Noder y telir taliadau a wneir i gyfrifon banc tramor yn arian lleol y banc yn unig.

Ydw ☐ Yna cwblhewch gwestiynau 1 i 5 in yn yr adran hon.

Nac ydw ☐ Yna cwblhewch gwestiynau 6 i 8 yn yr adran hon.

1. **Cod didoli'r gangen**

   ☐☐ — ☐☐ — ☐☐

2. **Eich rhif cyfrif banc / cymdeithas adeiladu**

3. **Cyfeirnod cymdeithas adeiladu**

4. **Enw deiliad y cyfrif**

   Mae'n rhaid i chi enwebu cyfrif neu gyfrif ar y cyd yn eich enw.

5. **Enw a chyfeiriad llawn y banc yn y Deyrnas Unedig**

   Cod post

6. **Codau IBAN / Banc a chyfrif**

7. **Cod BIC / Swift**

8. **Enw a chyfeiriad llawn y banc tramor**

   Cod post

Archif

**Adran 3: Manylion olynyddion**

Gellir defnyddio'r manylion hyn os byddwn yn derbyn cais am fudd-daliadau i olynydd wedi eich marwolaeth.

1. **Beth yw eich statws perthynas presennol?**

   ☐ Sengl/Gweddw/Gŵr Gweddw

   ☐ Wedi priodi

   ☐ Wedi ysgaru

   ☐ Partner sifil

   ☐ Partneriaeth wedi ei diddymu/Dirymu

   ☐ Gyda phartner a enwebwyd

   ☐ Priodas o'r un Rhyw

2. **Nodwch ddyddiad eich priodas/partneriaeth sifil**

   D D M M B B B B

3. **Nodwch ddyddiad geni priod/partner**

   D D M M B B B B

4. **Os wedi ysgaru, nodwch ddyddiad yr Archddyfarniad Absoliwt/Partneriaeth Wedi ei Diddymu**

   D D M M B B B B

*(parhad drosodd)*

## Rhan A: I'w gwblhau gan yr ymgeisydd ym mhob achos *(parhad).*

### Adran 4: Dewisiadau cyfandaliad

**Nodiadau:**
Dylech ddarllen y nodiadau 'Sut i Gwblhau'r Ffurflen Gais' ar gyfer Rhan A adran 4 cyn cwblhau'r cwestiynau isod.
**Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, mae eich penderfyniad yn derfynol.**

Os nad oes gennych unrhyw wasanaeth pensiynadwy ar neu ar ôl Ionawr 1 2007, byddwch yn derbyn cyfandaliad 3 gwaith eich pensiwn ond nid oes gennych yr opsiwn i ildio rhan o'ch pensiwn i gynyddu eich cyfandaliad.

Dylech ateb y 4 cwestiwn i gyd yn yr adran hon. Os nad oes unrhyw gwestiwn yn berthnasol i chi, ticiwch 'ddim yn berthnasol'.

**1. Os ydych yn aelod o'r Cynllun cyn 1 Ionawr 2007 a gyda gwasanaeth pensiynadwy ar neu ar ôl y dyddiad hwn.**
Byddwch yn derbyn cyfandaliad yn awtomatig o 3 gwaith gwerth eich pensiwn. Mae'r opsiwn gennych i gymryd cyfandaliad ychwanegol wrth ildio rhan o'ch pensiwn blynyddol. **A ydych yn dymuno gwneud hyn?**

Ydw ☐ Os ydw, nodwch faint o'ch pensiwn blynyddol **rydych am ei ildio,** gallwch nodi'r swm y flwyddyn rydych yn dymuno ei ildio neu gallwch nodi eich bod yn dymuno ildio'r uchafswm a ganiateir.

Swm y flwyddyn £
neu
Uchafswm a ganiateir ☐

Nac ydw ☐ Neu ddim yn gymwys ☐

**2. Os ydych yn aelod o'r Cynllun yn ymuno ar neu ar ôl 1 Ionawr 2007 heb wasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ionawr 2007.**
Dylech **fyddwch** yn derbyn cyfandaliad yn awtomatig ond bydd gennych yr opsiwn i gymryd cyfandaliad trwy ildio rhan o'ch pensiwn blynyddol.
**A ydych yn dymuno gwneud hyn?**

Ydw ☐ Os ydw, nodwch faint o'ch pensiwn blynyddol **rydych am ei ildio,** gallwch nodi'r swm y flwyddyn rydych yn dymuno ei ildio neu gallwch nodi eich bod yn dymuno ildio'r uchafswm a ganiateir.

Swm y flwyddyn £
neu
Uchafswm a ganiateir ☐

Nac ydw ☐ Neu ddim yn gymwys ☐

**3. Os ydych yn aelod o'r Cynllun yn ymuno â'r trefniadau Gyrfa Gyfartalog ar neu ar ôl 1af Ebrill 2015.**
Dylech **fyddwch** yn derbyn cyfandaliad yn awtomatig ond bydd gennych yr opsiwn i gymryd cyfandaliad trwy ildio rhan o'ch pensiwn blynyddol.
**A ydych yn dymuno gwneud hyn?**

Ydw ☐ Os ydw, nodwch faint o'ch pensiwn blynyddol **rydych am ei ildio,** gallwch nodi'r swm y flwyddyn rydych yn dymuno ei ildio neu gallwch nodi eich bod yn dymuno ildio'r uchafswm a ganiateir.

Swm y flwyddyn £
neu
Uchafswm a ganiateir ☐

Nac ydw ☐ Neu ddim yn gymwys ☐

*(parhad drosodd)*

Archif

Teachers' Pensions

## Rhan A: I'w gwblhau gan yr ymgeisydd ym mhob achos *(parhad).*

**4. Etholiadau Pensiwn Ychwanegol.** Os ydych wedi prynu neu'n prynu Etholiadau Pensiwn Ychwanegol mae'r opsiwn gennych i ildio rhan o'ch Pensiwn Ychwanegol i gynyddu eich cyfandaliad.
**A ydych yn dymuno gwneud hyn?**

Ydw ☐ Os ydw, nodwch faint o'ch pensiwn blynyddol **rydych am ei ildio,** gallwch nodi'r swm y flwyddyn rydych yn dymuno ei ildio neu gallwch nodi eich bod yn dymuno ildio'r uchafswm a ganiateir.

Swm y flwyddyn £
neu
Uchafswm a ganiateir ☐

Nac ydw ☐ Neu ddim yn gymwys ☐

### Adran 5: Manylion Eraill

**1. A ydych wedi'ch cyflogi gan fwy nag un Cyflogwr sy'n berthnasol i Bensiynau Athrawon yn y 12 mis diwethaf?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydw, sicrhewch eich bod yn cwblhau ffurflen gais ar gyfer pob Cyflogwr fel bod pob Cyflogwr yn cwblhau Rhan B o'r ffurflen. Mae'n dderbyniol llun-gopïo Rhan A sydd wedi ei chwblhau ar gyfer y ffurflenni ychwanegol.

Rhowch enwau a chyfeiriadau pob Cyflogwr yn y blwch isod (parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen).

**2. Lwfans Gydol Oes - I gael mwy o wybodaeth am asesiad Gydol Oes cyfeiriwch at www.hmrc.gov.uk**
**A fydd gwerth eich holl bensiynau blynyddol yn fwy na £45,000?**
Wrth asesu hyn, defnyddiwch werth eich budd-daliadau Cynllun Pensiwn Athrawon a phensiynau eraill cyn trosi unrhyw bensiwn blynyddol i gyfandaliad.

Bydd ☐ Nac ydw ☐

Os bydd, anfonir ffurflen arall atoch i'w llenwi.

**3. Os ydych ar hyn o bryd yn prynu Blynyddoedd Ychwanegol Gorffennol ac mae eich etholiad yn anghyflawn, cadarnhewch os ydych yn bwriadu:**

☐ Derbyn y gwasanaeth PAY y talwyd amdano hyd at ddyddiad ymddeol?

**NEU**

☐ Dalu'r cyfraniadau sy'n weddill trwy daliad siec cyn derbyn taliad o'ch budd-daliadau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon?

Os byddwch yn dewis talu'r cyfraniadau sy'n weddill, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau'r gost.

### Adran 6: Dyddiad taladwy

Os byddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon tra'n dal i fod mewn cyflogaeth addysgu, bydd eich budd-daliadau (gan gynnwys unrhyw gyfandaliad) yn cael eu talu o'r diwrnod cyntaf ar ôl gadael y gyflogaeth honno, ar yr amod eich bod wedi cyrraedd 55 oed. Os byddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon a'ch bod yn barod wedi gadael cyflogaeth addysgu, gallwch ddewis isod, y dyddiad y bydd eich budd-daliadau'n cychwyn. Ni all hyn fod yn gynt na 6 wythnos ar ôl y dyddiad i chi arwyddo'r ffurflen. Os na ddewiswyd dyddiad, neu bod y dyddiad a ddewiswyd yn llai na 6 wythnos ar ôl y dyddiad i chi arwyddo'r ffurflen, yna bydd Pensiynau Athrawon yn talu eich budd-daliadau o 6 wythnos ar ôl y dyddiad i chi arwyddo'r ffurflen.

**1. Dyddiad taladwy**

D D M M B B B B

*(parhad drosodd)*

Archif

Teachers' Pensions

## Rhan A: I'w gwblhau gan yr ymgeisydd ym mhob achos *(parhad).*

**Adran 7: Datganiad.**

**Sicrhewch eich bod yn darllen yr holl ddatganiadau datganiad isod cyn eich bod yn nodi'r dyddiad ac yn arwyddo'r adran hon.**

- Rwy'n gwneud cais am Fudd-daliadau Ymddeol Wedi Eu Haddasu ar Sail Tybiaethau Actwaraidd o dan Reoliadau Pensiynau Athrawon ac yn deall y telir pensiwn wedi ei addasu trwy gydol fy oes.
- Byddaf wedi terfynu pob cyflogaeth addysgu bensiynadwy neu wedi diystyru cyflogaeth yn Lloegr a Chymru a fydd yn dod i rym o'r dyddiad a ddangosir yn Adran 1 eitem 12, a bydd gennyf doriad cytundebol mewn cyflogaeth addysgu neu bydd y cais hwn yn annilys.
- Cytunaf i hysbysu Pensiynau Athrawon ynghylch unrhyw newid i'm dyddiad ymddeol neu unrhyw fanylion eraill a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon.
- Cadarnhaf fod unrhyw gyflogaeth bellach yn amodol ar gytundeb newydd a bydd egwyl o o leiaf un diwrnod rhwng cytundebau.
- Deallaf os yw fy mudd-daliadau presennol a budd-daliadau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn fwy na'r Lwfans Gydol Oes ar adeg ymddeol, a gan ystyried unrhyw dystysgrif diogelu trosiannol, bydd y tâl Lwfans Gydol Oes yn cael ei dalu a'm budd-daliadau'n cael eu lleihau.
- Cadarnhaf nad wyf yn torri rheolau ailgylchu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). I gael gwybodaeth bellach cyfeiriwch at www.hmrc.gov.uk.
- Deallaf fod y dewisiadau cyfandaliadau rwyf wedi eu gwneud yn derfynol.
- Mae'r holl wybodaeth rwyf wedi ei chyflwyno ar y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred.

**Llofnod**

**Dyddiad** D D M M B B B B

**Adran 8: Datganiad Tyst.**

**Dylid cwblhau'r adran hon yn unig pan fydd yr ymgeisydd wedi bod allan o addysgu am fwy nag 1 flwyddyn.**

**Mae'n rhaid i dyst gwblhau'r adran hon, ni all y tyst fod yn berthynas.**

- Ardystiaf yr arwyddwyd y datganiad hwn ar y diwrnod hwn, yn fy mhresenoldeb, gan yr unigolyn y credaf mai ef/hi yw'r ymgeisydd.

**Llofnod**

**Dyddiad** D D M M B B B B

**1. Enw**

**2. Rhif ffôn cartref** (gan gynnwys cod STD)

**3. Cyfeiriad cyswllt**

Cod post

**Nawr gofynnwch i'ch Cyflogwr gwblhau Rhan B cyn dychwelyd y ffurflen wedi ei chwblhau i Bensiynau Athrawon.**
**• Eithriad.: Os gadawoch gyflogaeth addysgu dros flwyddyn yn ôl, sicrhewch fod Rhan A, adran 8 wedi ei ardystio'n briodol a dychwelwch i Teachers' Pensions, Mowden Hall, Darlington, DL3 9EE.**

**Deddf Diogelu Data 1998.** Bydd yr Adran Addysg (DfE) yn defnyddio unrhyw wybodaeth a gyflwynwch o ran y Cynllun Pensiwn Athrawon i weinyddu a gweithredu'r cynllun a thalu budd-daliadau ynddo. Gall hyn gynnwys trosglwyddo manylion i drydydd parti sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu'r cynllun. Gall y DfE hefyd ddefnyddio'ch data i bwrpasau gweinyddol yn unol â'i hysbysiad diogelu data. Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i ddiogelu arian y cyhoedd, gall y DfE ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddo i atal a chanfod twyll. Gall hefyd rannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill sy'n delio ag arian cyhoeddus. **Os bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Athrawon a'r wybodaeth yn y ffurflen gais hon, y ddeddfwriaeth fydd yn weithredol.**

**Dychwelwch atom yn:**
Teachers' Pensions,
Mowden Hall
Darlington, DL3 9EE

**www.teacherspensions.co.uk**

Archif

Teachers' Pensions

## Rhan B: I'w gwblhau gan y cyflogwr a'i ddychwelyd yn syth.

### Adran 1: Manylion cyflogaeth

**1. Rhif y sefydliad**

[ ][ ][ ] / [ ][ ][ ][ ]

**2. Rhif cyfeirnod athro/athrawes**

[ ][ ] / [ ][ ][ ][ ][ ]

**3. Cyfenw'r athro/athrawes** (un llythyren i bob bocs)

**4. Enw cyntaf**

**5. Dyddiad geni**

D D M M B B B B

Gwiriwyd? Do [ ] Naddo [ ]

**6. Diwrnod terfynol mewn cyflogaeth â thâl yr aelod**

D D M M B B B B

**7. A yw'r athro wedi ei wahardd rhag gweithio ar hyn obryd?**
Os ydy, rhowch fanylion a'u hatodi i'r ffurflen.

Ydy [ ] Nac ydy [ ]

**Nodiadau:**
Mae'n rhaid rhoi manylion gwasanaeth a chyflog yn y tabl isod.
**Rhowch fanylion ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn bresennol hyd at ddiwrnod olaf cyflogaeth bensiynadwy.**
Ni ddylai unrhyw linell manylion gwasanaeth rychwantu 31 Mawrth.
Bydd methu gwneud hynny' golygu oedi o ran prosesu a thalu'r dyfarniad.

Ar gyfer aelodau sydd mewn gwasanaeth cydredol, yn ogystal â chofnodi'r gwasanaeth isod rhowch fanylion y gwasanaeth hwn hefyd ar ddalen arall. Gellir dod o hyd i arweiniad pellach ynghylch cwblhau'r manylion gwasanaeth yn y Canllaw Cyflogres.

| Graddfa gyflog | | | Llawn/ rhan amser (Ll/Rh) | Dyddiad cychwyn (dd/mm/bb) | Dyddiad gorffen (dd/mm/bb) | Cyfradd gyflog flynyddol amser llawn (£) (gan gynnwys Lwfans Pensiynadwy) | Cyflog rhan amser gwirioneddol a dalwyd (£) | Diwrnodau a eithriwyd (heblaw am ran amser) | Lwfansau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | A yw'r cyflog wedi ei ddiogelu? (S) | Ychwanegiadau Llundain (I/A/O/F) | Blaenoriaeth gymdeithasol (1/2/3/4) | Dosbarthiadau arbennig (7/8) | Goramser (Swm Gros mewn £oedd) | Maes atodol | Rhif Ysgol neu God Cyflogaeth | Dangosydd Tynnu'n ôl (W) |
| F | O | O | P | 01/04/14 | 31/08/14 | 36,000 | 4000 | 000 | S | F | 2 | 7 | 1100 | 500 | 4000 | W |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |

LLINELL ENGHRAIFFT

Archif

*(parhad drosodd)*

## Rhan B: I'w gwblhau gan y cyflogwr a'i ddychwelyd yn syth *(parhad).*

Rhaid i swyddog cyfrifol o'r Awdurdod Lleol gwblhau a llofnodi'r dystysgrif hon, nid yr ysgol, parthed pob ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir. Yn achos sefydliadau eraill, megis Academïau, rhaid i swyddog cyfrifol y corff llywodraethu lofnodi'r dystysgrif. Ni all yr unigolyn hwn fod yn aelod o'r staff addysgu.

**Adran 2: Tystysgrif**

Ardystiaf fod y manylion gwasanaeth a chyflog a ddarparwyd yn gofnod gwir a chywir o daliadau a wnaethpwyd parthed cyflogaeth bensiynadwy. Tystiaf lle bo'r ymgeisydd mewn gwasanaeth yn ystod y cais hwn, rhoddwyd caniatâd i ymddeol ac nid oes neu ni fydd unrhyw daliad ychwanegol o dan y rheoliadau iawndal yn cael ei dalu.
Tystiaf fod y cytundeb cyfredol wedi ei derfynu a bydd cyflogaeth yn dod i ben ar y dyddiad a nodir yn adran 1.12 y ffurflen hon.
Rwy'n gwerthfawrogi y bydd absenoldeb toriad mewn cyflogaeth o o leiaf un diwrnod yn annilysu'r cais hwn.

1. **Llofnod swyddog awdurdodedig**

2. **Enw swyddog awdurdodedig** (mewn prif lythrennau)

3. **Swydd**

4. **Rhif ffôn** (gan gynnwys cod STD ac estyniad)

5. **Dyddiad**

D D M M B B B B

6. **Enw cyswllt at ddibenynion gweinyddol** (mewn prif lythrennau)

7. **Rhif ffôn** (gan gynnwys cod STD ac estyniad)

8. **Rhif ffacs**

9. **Cyfeiriad e-bost**

10. **Cyfeiriad llawn neu stamp cyfeiriad**

Rhowch y cyfeiriad llawn a chod post, neu stamp â chyfeiriad

Archif

**Deddf Diogelu Data 1998.** Bydd yr Adran Addysg (DfE) yn defnyddio unrhyw wybodaeth a gyflwynwch o ran y Cynllun Pensiwn Athrawon i weinyddu a gweithredu'r cynllun a thalu budd-daliadau ynddo. Gall hyn gynnwys trosglwyddo manylion i drydydd parti sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu'r cynllun. Gall y DfE hefyd ddefnyddio'ch data i bwrpasau gweinyddol yn unol â'i hysbysiad diogelu data. Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i ddiogelu arian y cyhoedd, gall y DfE ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddo i atal a chanfod twyll. Gall hefyd rannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill sy'n delio ag arian cyhoeddus. **Os bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Athrawon a'r wybodaeth yn y ffurflen gais hon, y ddeddfwriaeth fydd yn weithredol.**

**Dychwelwch atom yn:**
Teachers' Pensions,
Mowden Hall
Darlington, DL3 9EE

**www.teacherspensions.co.uk**

Teachers' Pensions

Darllenwch y nodiadau cysylltiedig cyn cyflwyno'r ffurflen hon.

## Beth sy'n Digwydd Nesaf ?

- Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich ffurflen gais naill ai trwy lythyr, e-bost neu neges destun. Yn gyffredinol, byddwch yn cael eich hysbysu am eich budd-daliadau cyn eu bod yn daladwy.
- Os oes gennym eich cyfeiriad e-bost, byddwn yn ei ddefnyddio i gyfathrebu â chi. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi hysbysiad o'ch budd-daliadau ymddeol yn ardal ddiogel y wefan trwy **'Fy Mhensiwn Ar-lein'.** Gallwch gofrestru ar gyfer **Fy Mhensiwn Ar-lein** yn www.teacherspensions.co.uk/register
- Gallwch hefyd fonitro cynnydd eich achos yn **'Olrhain Fy Achos'** ar y wefan.

## Sut i Gwblhau'r Ffurflen Gais

### Nodiadau i'r ymgeisydd

**Rhan A Cyffredinol**
Dylech ddefnyddio'r ffurflen gais ymddeol hon pan fyddwch yn gwneud cais i gymryd unrhyw fudd-daliadau o drefniant Cynllun Pensiwn Athrawon cyn i chi gyrraedd Oedran Pensiwn Arferol, heblaw am fudd-daliadau ôl ymddeol Gwasanaeth Graddol, Cynamserol neu Ychwanegol. Mae ffurflenni gwahanol ar gyfer budd-daliadau ar ôl Ymddeol Gwasanaeth Graddol, Cynamserol ac Ychwanegol.

NI ddylech ddefnyddio'r ffurflen hon os:
- Byddwch yn gwneud cais i gymryd budd-daliadau'n unig o drefniadau lle eich bod wedi cyrraedd Oedran Pensiwn Arferol.
- Byddwch yn dymuno gohirio cymryd budd-daliadau o unrhyw drefniant lle nad ydych wedi cyrraedd Oedran Pensiwn Arferol eto.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am eich Oedran Pensiwn Arferol ar www.teacherspensions.co.uk/npa

Mae'r cais hwn mewn dwy ran. Mae'n rhaid i chi gwblhau Rhan A ac anfon Rhannau A a B at eich Cyflogwr. Mae'n rhaid i'ch Cyflogwr gwblhau Rhan B a dychwelyd dwy ran y ffurflen gais wedi ei chwblhau gyda'i gilydd i Bensiynau Athrawon.

Lle bydd gennych fwy nag un Cyflogwr dylech gwblhau ffurflen ar gyfer pob Cyflogwr (gallwch lun-gopïo Rhan A a gwblhawyd gyntaf ar gyfer Cyflogwyr ychwanegol). Mae'n rhaid i bob un o'ch Cyflogwyr gwblhau Rhan B a dychwelyd dwy ran y ffurflen gais wedi ei chwblhau gyda'i gilydd i Bensiynau Athrawon.

Cwblhewch y ffurflen gan ddefnyddio inc du a PHRIF LYTHRENNAU, nodwch dic yn eglur ar gyfer atebion sy'n defnyddio blychau tic.

**Rhan A adran 1: Manylion Personol**
Mae'n rhaid cwblhau adran 1 i gyd.

**Rhif cyfeirnod athro/athrawes:** Mae hwn yn rhif saith digid a dyma'ch cyfeirnod athro/athrawes unigryw (efallai eich bod yn ei adnabod hefyd fel eich rhif DfE).

**Dyddiad geni:** Fel rhan o'r broses cais, mae'n rhaid i Bensiynau Athrawon wirio bod oedran aelod yn cyd-fynd â'r hyn a nodir ar y ffurflen gais. Os bydd angen gwirio'r dyddiad geni, byddwn yn cysylltu â chi pan fyddwn yn derbyn eich cais.

**Cyfeiriad E-bost personol:** Sicrhewch eich bod yn rhoi'r cyfeiriad hwn gan y byddwn yn ei ddefnyddio i anfon gwybodaeth atoch am eich budd-daliadau. Dylech gofrestru ar y wefan www.teacherspensions.co.uk ar gyfer **Fy Mhensiwn Ar-lein** gan fod hwn yn faes diogel ar gyfer cyfathrebu.

*(parhad drosodd)*

Archif

## Sut i Gwblhau'r Ffurflen Gais *(parhad).*

**Dyddiad olaf cyflogaeth addysgu bensiynadwy:** Dyma'r diwrnod olaf y byddwch yn cael eich talu iddo. Gall fod yn wahanol i'r diwrnod olaf rydych yn gweithio.

**Rhan A adran 2: Manylion tâl**
Bydd eich pensiwn yn cael ei dalu i mewn i'r cyfrif rydych yn ei enwebu yn yr adran hon, os ydych yn ansicr am unrhyw rai o'ch manylion banc dylech gysylltu â'ch banc a fydd yn gallu eich helpu.
Gallwn wneud taliadau i mewn i gyfrif yn unig, neu gyfrif ar y cyd, sydd yn eich enw.
Os byddwch yn dymuno i'ch pensiwn gael ei dalu i mewn i gyfrif y DU cwblhewch gwestiynau 1 i 5.
Os byddwch yn dymuno i'ch pensiwn gael ei dalu i mewn i gyfrif nad yw yn y DU cwblhewch gwestiynau 6 i 8. Noder y telir taliadau a wneir i gyfrif nad yw yn y DU yn arian lleol y banc yn unig.

**Rhan A adran 3: Manylion olynyddion**
Cwblhewch bob cwestiwn sy'n berthnasol.

**Rhan A adran 4: Dewisiadau cyfandaliad**
**Cwblhewch bob cwestiwn. Os nad yw cwestiwn yn berthnasol i chi, gallwch dicio na/ddim yn berthnasol.**

**Os byddwch yn dymuno ildio rhan o'ch pensiwn blynyddol am gyfandaliad dylech dicio Ie a chwblhau'r manylion priodol.** Dylech ddefnyddio'r cyfrifianellau ar y wefan www.teacherspensions.co.uk cyn gwneud unrhyw ddewisiadau.

Os byddwch yn gwneud cais am fudd-daliadau mewn mwy nag un trefniant Cynllun Pensiwn Athrawon, gallwch dynnu cyfandaliad gwahanol o bob un.

- Cwestiwn 1 ar gyfer trefniadau gydag Oedran Pensiwn Arferol o 60.
- Cwestiwn 2 ar gyfer trefniadau gydag Oedran Pensiwn Arferol o 65.
- Cwestiwn 3 ar gyfer y trefniadau Gyrfa Gyfartalog.

Os byddwch am gymryd yr uchafswm cyfandaliad yna nodwch hyn yn y blwch ochr yn ochr ag 'Uchafswm a Ganiateir' a pheidiwch â nodi swm penodol. Os byddwch yn gwybod faint o'ch pensiwn blynyddol rydych yn dymuno ei ildio, nodwch y swm hwn ochr yn ochr â 'Swm penodol y flwyddyn' a pheidiwch â thicio 'Uchafswm a Ganiateir.'

PEIDIWCH â nodi'r cyfandaliad rydych yn dymuno ei dderbyn, gallai hyn olygu gwall ac oedi prosesu eich cais.

Ewch i'r cyfrifianellau ar ein gwefan i weld amcangyfrifon o'r gostyngiad a wneir i'ch pensiwn blynyddol pan fyddwch yn dewis cymryd cyfandaliad.

Os ydych wedi prynu neu'n prynu Pensiwn Ychwanegol yn y Cynllun Pensiwn Athrawon yna mae'r opsiwn gennych i gymryd cyfandaliad wrth ildio rhan o'ch budd-dal blynyddol o'ch Pensiwn Ychwanegol. Os byddwch yn dymuno gwneud hyn yna cwblhewch Gwestiwn 4.

Ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud dewisiadau cyfandaliad o Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol neu gynilion pensiwn eraill nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

**Rhan A adran 5: Manylion eraill**
Os oes gennych fwy nag un Cyflogwr mae'n rhaid i bob Cyflogwr lenwi rhan B y ffurflen a dylid cyflwyno'r ddwy gyda chopi o ran A (mae'n dderbyniol llun-gopïo'r Rhan A a gwblhawyd gyntaf ar gyfer Cyflogwyr dilynol).

**Lwfans gydol oes:** Wrth ateb y cwestiwn lwfans gydol oes, mae'n rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm o Gyfraniadau Gwirfoddol ychwanegol a phensiynau nad ydynt yn Gynllun Pensiwn Athrawon yn ogystal â'ch holl Bensiynau Athrawon, ond nid eich pensiwn y wladwriaeth. Gallwch gael datganiad budd-daliadau ar gyfer y Cynllun Pensiwn Athrawon gan ddefnyddio My Pension Online (MPO), ewch i'n gwefan www.teacherspensions.co.uk. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am newidiadau treth Lwfans Gydol Oes ar www.hmrc.gov.uk.

*(parhad drosodd)*

Archif

Teachers' Pensions

## Sut i Gwblhau'r Ffurflen Gais *(parhad).*

**Rhan A adran 6: Dyddiad taladwy**
Os byddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon a'ch bod yn barod wedi gadael cyflogaeth addysgu, gallwch ddewis isod, y dyddiad y bydd eich budd-daliadau'n cychwyn. Ni all hyn fod yn gynt na 6 wythnos ar ôl y dyddiad i chi arwyddo'r ffurflen. Bydd y dyddiad hwn yn gymwys yn unig i'r budd-daliadau hynny a hawlir cyn cyrraedd Oedran Pensiwn Arferol.

Dyddiad taladwy Dyma'r diwrnod y disgwylir i'ch pensiwn gychwyn.

**Rhan A adran 7: Datganiad**
Gwiriwch eich atebion a darllenwch y datganiad cyn eich bod yn arwyddo ac yn nodi'r dyddiad ar y ffurflen.

Mae'n rhaid i chi arwyddo a nodi dyddiad ar y ffurflen i'ch cais gael ei dderbyn.

Os na chwblhawyd unrhyw adran gwrthodir y cais.

**Rhan A adran 8: Datganiad Tyst**
Mae angen cwblhau'r Datganiad Tyst yn unig os ydych wedi bod allan o addysgu am dros 1 flwyddyn ac nid oes cyflogwr yn cwblhau Rhan B.

Mae'n rhaid i'r llofnod a'r manylion a roddir fod yn rhai'r unigolyn sy'n gweithredu fel tyst, ni all y tyst fod yn berthynas i'r ymgeisydd.

### Nodiadau i'r Cyflogwr

**Rhan B: Cyffredinol:**
Mae'n rhaid cwblhau Adrannau 1 a 2.

**Rhan B adran 1: Manylion cyflogaeth**
**Diwrnod terfynol mewn cyflogaeth â thâl aelodau:** Nid y diwrnod olaf y gweithiodd yr aelod ond y diwrnod olaf y telir yr aelod iddo a gorffen cyflogaeth bensiynadwy.

**Dyddiad Geni:** Mae'n rhaid i chi gadarnhau eich bod wedi gwirio dyddiad geni'r ymgeisydd.

**Manylion gwasanaeth:** Mae'n rhaid i chi gyflwyno pob manylyn gwasanaeth sy'n weddill, rhoddwyd llinell enghraifft ar y ffurflen i roi arweiniad ar sut y dylid nodi'r manylion. I gael gwybodaeth bellach ynghylch cwblhau'r manylion gwasanaeth cyfeiriwch at y Canllaw Cyflogres. Gallwch ddod o hyd i'r Canllaw Cyflogres ar www.teacherspensions.co.uk/payrollguide.

**Rhan B adran 2: Tystysgrif**
Unwaith y llenwir holl ddarnau angenrheidiol y ffurflen gais dylid dychwelyd Rhan A a Rhan B y ffurflen gais i Bensiynau Athrawon gyda'i gilydd. Os na chwblhawyd unrhyw adran gwrthodir y cais.

**Rhestr Wirio ar gyfer y Cyflogwr cyn eich bod yn dychwelyd y cais i Bensiynau Athrawon.**
1. Ydych chi wedi ticio'r blwch i chi gadarnhau eich bod wedi gwirio dyddiad geni'r ymgeisydd?
2. A ydych chi wedi rhoi pob manylyn gwasanaeth sy'n weddill?
3. A ydych chi wedi ychwanegu'r stamp swyddogol neu gyfeiriad llawn i'r ardystiad?

*(parhad drosodd)*

Archif

## Sut i Gwblhau'r Ffurflen Gais *(parhad).*

**Rhestr wirio i aelodau cyn eich bod yn anfon eich cais**

1. A ydych wedi gwirio eich cais yn drwyadl i sicrhau bod pob cwestiwn wedi ei ateb yn gywir?
2. Os byddwch yn dymuno ildio rhan o'ch pensiwn blynyddol am gyfandaliad, ydych chi wedi gwirio'r effaith a fydd gan hyn ar eich pensiwn blynyddol?
3. A ydych wedi ystyried pob Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol a chynilion nad ydynt yn Gynllun Pensiwn Athrawon yn ogystal â'ch cynilion Pensiynau Athrawon yn eich asesiad ar gyfer Lwfans Gydol Oes cwestiwn 2 (adran 5) ?
4. A ydych wedi arwyddo a nodi'r dyddiad ar y cais?
5. Lle rydych wedi bod mewn cyflogaeth addysgu yn y flwyddyn ddiwethaf
   a. Ydych chi wedi gofyn i'ch Cyflogwr Gwblhau Rhan B a'i dychwelyd i Bensiynau Athrawon?
   b. Lle roedd Cyflogwyr lluosog gennych, ydych chi wedi gofyn i bob Cyflogwr gwblhau Rhan B?
6. Lle nad ydych wedi bod mewn cyflogaeth addysgu yn y flwyddyn ddiwethaf, a yw tyst wedi cwblhau'r Datganiad Tyst?

Archif

**Deddf Diogelu Data 1998.** Bydd yr Adran Addysg (DfE) yn defnyddio unrhyw wybodaeth a gyflwynwch o ran y Cynllun Pensiwn Athrawon i weinyddu a gweithredu'r cynllun a thalu budd-daliadau ynddo. Gall hyn gynnwys trosglwyddo manylion i drydydd parti sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu'r cynllun. Gall y DfE hefyd ddefnyddio'ch data i bwrpasau gweinyddol yn unol â'i hysbysiad diogelu data. Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i ddiogelu arian y cyhoedd, gall y DfE ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddo i atal a chanfod twyll. Gall hefyd rannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill sy'n delio ag arian cyhoeddus. **Os bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Athrawon a'r wybodaeth yn y ffurflen gais hon, y ddeddfwriaeth fydd yn weithredol.**

**Dychwelwch atom yn:**
Teachers' Pensions,
Mowden Hall
Darlington, DL3 9EE

**www.teacherspensions.co.uk**